Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a
Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

19 Ebrill 2017

Annwyl gyfaill

## Gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cytuno i gynnal tri ymchwiliad i dlodi yng Nghymru. Yn y misoedd nesaf, byddwn yn ystyried:

– Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd;

– Dulliau yn seiliedig ar asedau i leihau tlodi; a

– Gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ymgynghoriad ysgrifenedig ar yr elfen Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd, a nawr rydym yn lansio ymgynghoriad ysgrifenedig ar yr elfen ynghylch gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel.

Bydd yr ymchwiliad hwn yn adeiladu ar y gwaith cychwynnol gan y Pwyllgor yn gynharach eleni, gan gynnwys trafodaethau mewn digwyddiad i randdeiliaid ym mis Ionawr a'r ddwy sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Byddwn hefyd yn ystyried y sesiynau y cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i edrych ar y strategaeth economaidd i Gymru.

Dyma ein cylch gorchwyl:

- Sut y gall strategaeth economaidd a chynllun cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru:
  - Annog twf economaidd mwy cynhwysol sydd o fudd i bobl a lleoedd yn gyfartal ar draws Cymru;
  - Cyd-fynd â Rhaglen Gwaith ac Iechyd Llywodraeth y DU;
  - Lleihau cyfran y rheiny sydd ag incwm isel yng Nghymru; a
  - Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd rhwng gwahanol grwpiau o bobl
- Ymchwilio i sectorau cyflog isel, a mesurau i wella cyflogau gweithwyr cyflog isel fel y cyflog byw;
- Ffyrdd o wella diogelwch gwaith yng Nghymru; a
- Rôl budd-daliadau lles wrth gefnogi'r rheiny sydd ag incwm isel yng Nghymru.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod i lunio eich ymateb.

Bydd yr ymatebion ysgrifenedig yn helpu i lywio'r sesiynau tystiolaeth lafar yr ydym yn bwriadu eu cynnal ym mis Gorffennaf. Rydym felly am i unrhyw gyflwyniadau gael eu cyflwyno erbyn **dydd Llun 19 Mehefin.**

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

**Canllawiau**

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y canllawiau i dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau.

**Polisi dwyieithrwydd**

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

**Manylion cyswllt**

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA.

E-bost: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir

John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.